**CALU – GWLAD – Mai 2008**

## Cyfle i sicrhau prisiau uwch am ieir y coetiroedd

*Gan Kerrin Buckler - CALU*

MAE'N ddyddiau da i gynhyrchwyr ieir organig ac ieir maes a buarth, diolch i gogyddion enwog ac ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd amlwg.

Bellach, mae mwy a mwy o ddefnyddwyr yn awyddus i gael anifeiliaid a fagwyd yn ôl safonau lles uchel, gan ddefnyddio dulliau ffermio mwy 'naturiol'.

Gan eu bod nhw'n dibynnu ar labeli i ddewis eu cynnyrch, mae llawer yn credu bod 'maes a buarth' yr un fath â 'safonau lles uchel'. Nid yw hyn yn wir o reidrwydd. Er mwyn cael eu labelu fel cynnyrch 'maes', rhaid bod cyfle i'r ieir fynd allan i'r awyr agored yng ngolau dydd – ond does dim sicrwydd y byddant yn gwneud hynny chwaith.

Er enghraifft, roedd astudiaeth o unedau maes a buarth yn dangos fod llai na 14% o'r haid yn mentro i'r awyr agored ar unrhyw adeg.

Mae sawl rheswm am hyn. Efallai nad yw'r cynefin yn apelio at yr ieir, er enghraifft. Mae ymchwilwyr yn dechrau ystyried hyn nawr; mae angen ystyried pa fath o gynefin sydd ar gael i'r ieir yn hytrach na dim ond neilltuo darn o dir yn yr awyr agored.

Dyna oedd testun astudiaeth y Ganolfan Defnydd Tir Amgen yn ddiweddar, dan law ymchwilwyr Canolfan Ymchwil Henfaes Prifysgol Bangor. Cafodd ieir eu rhoi mewn amrywiaeth o gynefinoedd gwahanol – rhai heb goed, rhai mewn coetiroedd, a rhai mewn cymysgedd o goetir a thir agored.

Meddai Andrew Pickup, Ymchwilydd y Prosiect, "Mae cynnwys coed mewn lleoliad y tu allan yn addawol iawn, o gofio bod ieir domestig wedi'u bridio'n wreiddiol o'r ffowls jyngl gwyllt yn fforestydd India a de-ddwyrain Asia.

"Os yw'r ieir yn gallu crwydro i ardal sy'n debycach i'w cynefin gwreiddiol, yn hytrach na chae agored, yna efallai byddant yn gwneud defnydd gwell ohono, yn parhau'n fwy egnïol ac felly'n osgoi problemau lles mawr."

Roedd yr astudiaeth yn cymharu sut roedd ieir bwyta yn mewn amgylcheddau gwahanol. Sylwodd Andrew fod yr ieir yn treulio mwy o amser ar gyfartaledd y tu allan mewn coetir nag mewn cae agored heb goed.

Meddai, "Mae potensial, felly, i farchnata dofednod 'wedi'u magu mewn coetiroedd' fel cynnyrch lles uchel o'r iawn ryw, gyda chyfle i sicrhau prisiau uwch."